



Pwyllgor Cynllunio a Datblygu CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal brynhawn Iau, 20 Medi 2018 am 5.00pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian. Cwm Clydach, Tonypanydy CF40 2XX.

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Aelodau o'r Pwyllgor Datblygu a Chynllunio oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Caple Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd G Hughes Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd S Powell Y Cynghorydd J Harries
Y Cynghorydd R Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol:-

Mr J Bailey, Rheolwr Materion Rheoli Datblygu
Mr S. Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Powderhill

92 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol W. Owen a P. Jarman.

93 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

94 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

95 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n

anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

96 COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 16 Awst, 2018 yn rhai cywir.

97 CAIS: 18/0782

Man croesi cerbydau arfaethedig er mwyn darparu lle parcio oddi ar y stryd, Ashton Villa, New Park Terrace, Trefforest, Pontypridd.

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mrs Laura Pocock (Gwrthwynebydd) a oedd wedi gofyn i annerch yr Aelodau ar y cais yn bresennol i wneud hynny.

Siaradodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Powderhill, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gefnogaeth ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig, ond gwrthwynebodd y cais i gyflwyno'r Amod 3 arfaethedig.

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Datblygu'r cais i'r Pwyllgor a rhoddodd y Swyddog Cyfreithiol gyngor mewn perthynas â'r rheswm am Amod 3. Dywedodd y swyddog y byddai'r Amod i ddiwygio a gweithredu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig presennol cyn dechrau'r gwaith datblygu yn hwyluso mynediad digonol at y briffordd gyhoeddus ac yn arbed unrhyw wrthdaro a all godi o gael cwrw isel a lle parcio.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

(**Noder:** roedd rhybudd i gynnig y cais ar yr amod y caiff yr Amod 3 arfaethedig ei ddileu ei wrthod)

98 CAIS: 18/0845

Trosi sied ar gyfer storio i 'Fflat Mamgu', 7 Heol-Y-Bryn, Rhydfelen, Pontypridd.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

99 CAIS: 17/1236/10

Adeiladu byngalo ar wahân. 21 Trenos Gardens, Llanharan, Pont-y-clun, CF72 9SZ.

(**Noder:** Ar yr adeg yma yn y cyfarfod, cyrhaeddodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J. Harries y cyfarfod)

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Datblygu y cais uchod a adroddwyd diwethaf i'r Pwyllgor ar 16 Awst, 2018. Yn ystod y cyfarfod, roedd yr Aelodau o blaid gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio. Roedden nhw o'r farn bod ffurf a chynllun y datblygiad yn anaddas ac

nad oedd y trefniadau parcio a mynediad ar gyfer yr anheddau newydd a'r rhai sy'n bodoli'n barod yn ddigonol (gweler Cofnod 70).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl gwrthod cais yn groes i argymhelliad y swyddog. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio am y rhesymau canlynol:

- Yn rhinwedd ei leoliad, ni fyddai'r annedd arfaethedig yn gweddu'n dda gyda chynllun yr eiddo sy'n bodoli'n barod ac eiddo cyfagos. Bydd ganddo berthynas israddol ac ni fydd yn adlewyrchu ymddangosiad na chymeriad y strydlun. Byddai'r datblygiad felly yn groes i Bolisiau AW5 ac AW6 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf
- Mae'r cynllun ar gyfer y trefniadau mynediad a'r ddarpariaeth ar gyfer parcio oddi ar y stryd ar gyfer tai newydd a thai sy'n bodoli'n barod yn annigonol. Byddai hyn yn arwain at barcio ar y stryd beryglus a cherbydau'n symud mewn ffordd beryglus. Ni fyddai'r datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf na chanllawiau cynllunio atodol y Cyngor ar gyfer Mynediad, Cylchrediad a Gofynion Parcio.

100 CAIS: 18/0537

Defnydd ychwanegol o neuadd yr eglwys sydd ar y llawr gwaelod, a fydd yn cynnwys gweithdy bach ar gyfer ailwampio celfi. (Ailgyflwyno cais 18/0104/10). Eglwys Sant Luc, Bedw Road, Cilfynydd, Pontypridd.

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Datblygu y cais uchod a adroddwyd yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar 16 Awst, 2018. Yn ystod y cyfarfod, roedd yr Aelodau o blaid cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio. Roedden nhw o'r farn na fyddai'r datblygiad yn achosi problemau diogelwch ar y briffordd oherwydd ei fod yn fach ac oherwydd ei ddefnydd arfaethedig. Roedd hyn ar yr amod bod cwmpas y caniatâd yn cael ei ddiffinio gan amod sydd wedi'i eirio'n briodol (gweler Cofnod 69).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad y swyddog. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, yn amodol ar yr Amodau sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad am y rheswm canlynol:

- Byddai graddfa fechan y cynllun cymunedol a'r defnydd ychwanegol arfaethedig yn dderbyniol mewn egwyddor ac nid yw'r cynllun yn cael ei ystyried i fod yn niweidiol i amwynderau'r cymdogion. Byddai'r cynllun felly'n cynrychioli defnydd cydnaws yng nghyd-destun y datblygiad preswyl cyfagos. Yn ogystal, mae'n cael ei ystyried na fyddai dwysedd isel y defnydd, yn ystod yr oriau byddai'n cael ei ddefnyddio, yn cynyddu'r galw am barcio ar y stryd, neu'n cynyddu'r nifer o gerbydau ar y ffordd mewn modd fydd yn niweidiol i ddiogelwch ar y ffordd. Mae'r Aelodau, felly, yn ystyried bod y cais yn cydymffurfio â Pholisiau AW5, AW6 ac AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

101

**GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU
WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 20 Awst 2018 a 6 Medi, 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.25pm

**Y CYNGHORYDD S. REES
CADEIRYDD.**